Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
GORFFENNAF 2008

DYDDIAD	Nos Fercher, 16eg Gorffennaf, 2008
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Canolfan **CAE'R GORS, RHOSGADFAN**
AELODAU'N BRESENNOL	Jason Hunt (Cad), Gwilym L.Williams, Gwilym V.Thomas, Jane Eryl Jones, Meurig Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng. Aeron M.Jones, Bethan Williams,clerc.

1. **Ymddiheuriadau**
   Elwyn Jones, Huw Williams, Elin Evans, Nerys Evans

2. **Croeso**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

3. 1 **Datgan Buddiant**

4. **Cadarnhau cofnodion**

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Gofynnwyd oes oes unrhyw ddatblygiad ynglyn a chyfarfod o'r pwyllgor cae chwarae. Nododd AMJ ei fod wedi cael cyfarfod safle gyda HW a MW. Ceisio cael y pentrefwyr i alw cyfarfod cyhoeddus. AMJ yn mynd i gael gair efo HW i geisio trefnu cyfarfod.
   b. Materion godwyd gan AMJ efo Cyngor Gwynedd: cael 'lane' ychwanegol i'r chwith yn Ffrwd Cae Du – Adran Cefnffyrdd yn nodi nad oes pwrpas lledu'r ffordd yma, ond mae AMJ am gysylltu eto i geisio dwyn perswad.
   c. Arwyddion stryd – anfonwyd rhestr o arwwyddion sydd angen sylw at AMJ ac mae wedi cysylltu efo Cyngor Gwynedd – gobeithir y bydd y gwaith yn cael ei wneud yn fuan. Arwydd Bro Gilbert – AMJ wedi torri'r gwair ei hun ac am gael y Cyngor Sir i glirio'r safle Ymateb Meirion Williams, Cyngor Gwynedd i sylwadau fis Mehefin
   d. Llythyr gan Hacker Young ynglŷn â threfniadau'r cyngor
   e. Llythyr gan Alun Ffred Jones ynglŷn â phapur ymgynghori newidiadau i bolisi cynllunio i gefnogi datblygu cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig
   f. Cytundeb newydd rhwng Cyngor Gwynedd a'r Cynghorau Cymuned ynglŷn â cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus
   g. Ad-drefniant oddi fewn i Gyngor Gwynedd ynglyn a uned hawliau cyhoeddus
   h. Cynulliad – adolygiadau o'r trefniadau etholiadol
   i. Antur Nantlle – gwahoddiad i gynrychiolydd o Llanwnda
   j. Un Llais Cymru – rhaglen hyfforddiant genedlaethol
   k. Swyddfa'r Post – newid rhwydwaith swyddfa'r post yn yr ardal – gwahoddiad i gynrychiolydd fynychu ymgynghoriad sy'n digwydd ar Awst 19eg yn Galeri, Caernarfon JEJ am fynychu ar ran y cyngor.
   l. Dwr ar y ffordd yn Llanwnda – Meirion Williams wedi nodi fod y mater yn cael sylw.

m. 2 ddrych ger y siop a ger Ty Nant yn Rhostryfan angen eu hadnewyddu – nodwyd fod yr un ger y siop wedi'i osod yn wynebu'r ffordd anghywir, ond fe fu Elwyn Jones yno yn ei eil-gyfeirio. Angen gofyn am ddrych ger Ty Nant.
n. Tanrallt, Rhostryfan – AMJ wedi ymchwilio ymhellach ynglyn a'r olew sy'n cael ei gadw ar y safle Tanrallt – nododd fod Uned Gwarchod y Cyhoedd yn ymwybodol o'r sefyllfa.

6. **Derbyn Adroddiadau:**
Sawl aelod a'r clerc wedi mynychu cwrs hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad newydd.

7. **Is-bwyllgorau:**
Is-bwyllgor y fynwent – 6.30p.m. 16.07.08
Penderfynwyd danfon llythyr at Roberts & Owen yn eu hatgoffa fod angen anfon tystysgrifau marwolaeth yn syth i'r clerc, a bod angen taliadau prydlon.

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	24,020.89
Cyfri Siec:	770.61
CYFANSWM	**24,791.50**

Taliadau:

Cyflog/costau clerc – mis Gorffennaf ac Awst	820.27
Cyllid y Wlad	194.70
Siôn Owen	1040.00

Eto i'w dalu: Cyngor Gwynedd – bil a rhybudd am yr arwyddion LED (dal yn ôl ar y taliad hyd nes bydd yr arwyddion wedi'u trwsio). 8918.89
Ceisiadau am nawdd i'w trafod ym mis Hydref:
Shelter Cymru
Cymdeithas Alzheimer's

Materion Cynllunio
CO8A/0423/24/AM
Cais amlinellol i godi 6 tŷ fforddiadwy – Glanrhyd Isaf, Llanwnda – teimlai'r aelodau fod efallai gormod o dai ar y safle o ystyried y ffordd sy'n arwain yno.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO8A/0421/24/LL
Cais rhannol ôl-weithredol i newid defnydd tir amaethyddol i ddefnydd fel gardd a chodi 4 sied a polytunnel – Hafod Rhos Isaf, Rhosgadfan
CO8A/0410/24/AM
Cais amlinellol i ddymchwel capel gwag a chodi 2 annedd newydd – Capel Gorffwysfa, Rhosgadfan
CO8A/0399/24/LL
Lolfa Wydr un llawr – Anwylan, 6 Gerddi Benar, Bontnewydd
CO8A/0402/24/LL
Codi dau dy deulawr, gosod system triniaeth a darparu mannau parcio – safle'r hen Neuadd, Rhosgadfan
Eisoes wedi'u caniatau:
Newid defnydd o swyddfeydd i ddefnydd fel meithrinfa a defnydd mân-werthu – Ty Hen, Llanwnda.

Gohebiaeth:

a. Llythyrau yn ymwneud ag Uned Arbennig Ysgol Bronyfoel
b. Bwrdd Iechyd Lleol – Strategaeth Iechyd Newydd – Cyflawni'r Weledigaeth Gyda'n Gilydd
c. Cofnodion is-bwyllgor Cymunrodd Elizabeth Hughes
d. Cynulliad – cynllun partneriaeth llywodraeth leol
e. Adroddiad ARUP – ffordd osgoi Bontnewydd
f. Cyngor Gwynedd – Cynllun Plant a Phobl Ifanc Gwynedd 2008-2011 – drafft
g. Cylchgronnau

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. GVT – cae chwarae
b. GVT – faniau Cyngor Gwynedd yn cael eu cadw ger cartrefi'r gyrrwyr yn hytrach nag yn y depot.
c. MW – llwybr 111 – Lôn Beudy i lawr i Caerodyn, giat angen ei hadnewyddu. Clerc i gysylltu efo'r Adran Lwybrau.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30p.m.